

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Hyfforddi a Datblygu
Swydd	Hyfforddwr Gyrru
Rhif y Swydd	504084
Graddfa	10
Lleoliad	Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd
Yn gyfrifol i'r	Rheolwr Darpariaeth Dechnegol
Yn gyfrifol am	Ddim yn berthnasol
Cyfrifoldeb dros Adnoddau Corfforol	Ddim yn berthnasol
Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol	Ddim yn berthnasol

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Caiff y swydd-ddisgrifiad hwn ei adolygu yn ôl y gofyn er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth.

PRIF BWRPAS Y SWYDD

Bod yn gyfrifol am Hyfforddi a Datblygu Gyrru personél Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (staff gweithredol a chynnal) ac asiantaethau ychwanegol yn ôl y cyfarwyddyd. I gynnwys trefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddi mewn perthynas â nifer o gategoriâu o gerbydau yn ôl cyfarwyddyd gan y sefydliad.

Bydd pob dyletswydd a chyfrifoldeb yn cael ei gynnal a'i fonitro yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol i yrwyr a chyfarwyddyd Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan sicrhau gweithrediad cymwys a diogel ar bob adeg.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

A. Pob math o gerbyd (pob graddfa)

1. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant trwy gyfnewid i holl weithwyr y Gwasanaeth yn ôl y gofyn.
2. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â derbyniadau cerbydau ysgafn i bob gweithiwr yn ôl y gofyn. Sicrhau y codir a chofnodir pob dogfennaeth yn gywir.
3. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddi gweithwyr yn ôl y gofyn mewn technegau gyrru oddi ar y lôn.
4. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddi a datblygu gyrrwyr y gwasanaeth mewn sgiliau gyrru PCV.
5. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddi a datblygu gyrrwyr y gwasanaeth mewn sgiliau tynnu ôl-gerbydau.

6. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant i yrwyr arbenigol, gan sicrhau bod cymhwysedd i bob gweithiwr sy'n ymgymryd ag hyfforddiant.
7. I ddelio ag ymholiadau sy'n berthynol i yrru a chysylltu â'r Grŵp Risg y Ffyrdd (RRG) fel bo'n briodol.
8. I sicrhau y codir a chofnodir pob dogfennaeth hyfforddi gyrywyr yn gywir, e.e. trwyddedau gyrru.
9. I gynorthwyo ag ymchwil sy'n berthynol i yrru ac/neu ymchwilio a monitro safonau gyrru'n gyffredinol o fewn y Gwasanaeth.
10. I drefnu a chydlynu cyfathrebu â gwneuthurwyr a darparwyr cerbydau i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio a darparu cyrsiau i yrwyr/gweithredwyr.
11. I gysylltu â'r adran Cymorth Hyfforddi i drefnu a chydlynu cynllunio, datblygu a diweddarau hyfforddiant gyrywyr a pheccynnau gweithredwyr cerbydau arbenigol fel bo'r angen.
12. I gysylltu â'r rheolwr Fflyd mewn perthynas â hyfforddi gweithwyr y gwasanaeth ar bob mater newydd sy'n ymwneud â pheiriannau, ac arwain ar grynhoi taflenni cyfarwyddiadol cerbydau newydd.
13. I gysylltu â'r adrannau Gweithrediadau a Staffio Canolog, gan sicrhau fod y personél priodol wedi'u hyfforddi o ran gyrru/gweithredu cerbydau ac y poblogwyd y cyrsiau'n briodol.
14. I ddarparu cymorth i holl bersonél Tân ac Achub De Cymru wrth ymgymryd ag ymweliadau cyfarwyddiadol pan fo'n ofynnol (i gynnwys nosweithiau a phenwythnosau) a fwriedir i gynnal medrusrwydd y sector i yrwyr o bob lefel.
15. I gysylltu â'r adran Fflyd a Pheirianneg i sicrhau y cynhelir cerbydau'r Ganolfan Hyfforddi hyd safon y gwasanaeth.

B. Cerbydau Arbenigol (yn ddibynnol ar raddfa)

1. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant gyrywyr/gweithredwyr ar bob cerbyd arbenigol, i gynnwys:
 - Yr Uned Ymateb i Ddigwyddiad, Pwmp Cyfaint Uchel ac Unedau Cerbydau Dros Dro Chwilio ac Achub Trefol
 - Tryciau Fforch Godi (Moffet Mounty a Counterbalance)
 - Craeniau ar gefn Cerbydau/Llwythwyr Lori

I sicrhau y cynhelir a chrynhwir holl gofnodion hyfforddi gyrywyr a gweithredu cerbydau arbenigol hyd safon uchel i'w harchwilio fel sy'n ofynnol gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, RTITB neu unrhyw gorff Gweithgor Iechyd a Diogelwch (GID) a gydnabyddir yn genedlaethol.

2. I gysylltu ag asiantaethau allanol er mwyn darparu lleoliadau hyfforddi priodol ar gyfer gweithgareddau hyfforddi arbenigol.

C. Hyfforddiant Cerbydau Nwyddau Mawr (LGV) a Cherbydau Ysgafn (LV), Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr (ERDT) (yn ddibynnol ar raddfa):

1. I gysylltu â'r adran Staffio Canolog i gydlynu a chynnal Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr Cerbydau Ysgafn, Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr Cerbydau Nwyddau Mawr, Cerbydau Cludo Teithwyr, cerbydau oddi ar y lôn, tynnu ôl-gerbydau a phob cerbyd ysgafn.
2. I drefnu, cydlynu ac ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol ac ailymgymhwysol mewn sgiliau gyrru Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr Cerbydau Nwyddau Mawr a Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr Cerbydau Ysgafn. I sicrhau fod cofnodion Hyfforddiant Gyrrwyr Cyflymdra Uchel (HSDT) yn cael eu crynhoi a'u storio'n briodol.
3. I gynrychioli'r Gwasanaeth mewn seminarau a gweithdai hyfforddi gyrrwyr Rhanbarthol a Chenedlaethol ar faterion Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr cerbydau arbenigol a materion gyrru eraill.

D. Hyfforddwr gyrru dynodedig Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA) (yn ddibynnol ar raddfa):

1. I drefnu, cydlynu a chynnal profion ymarferol gyrru a theori ar gerbydau categori B ac E, C a D1 fel yr awdurdodwyd gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau.
2. I gysylltu ag Arholwyr y Gwasanaeth, y DVSA a darparwyr allanol i archebu profion gyrru LGV a phroffion theori, a sicrhau y cedwir yr holl offer a chofnodion profi yn ddiogel a sicrhau eu hargaeledd i'w harchwilio.
3. I drefnu a sicrhau y cynhelir cofnodion prawf a gweinyddiaeth i'r safon sy'n ofynnol gan y DVSA.
4. I gynghori'r Gwasanaeth ar faterion sy'n ymwneud â chaffael trwyddedau gyrru, drwy'r DVSA a Chysylltu â Swyddogion Hyfforddi Staff i benderfynu gofynion a threfniadau gyrru.
5. I gynrychioli'r Gwasanaeth mewn seminarau a gweithdai hyfforddi gyrrwyr Rhanbarthol a Chenedlaethol ar agweddau DVSA ac agweddau gyrru eraill.
6. I gysylltu â Rheolwyr Canolfan Hyfforddi, partneriaid allanol Babcock ac Arholwyr eraill y Gwasanaeth i drefnu profion gyrru B ac E, C a D1.
7. I drefnu y cynhelir pob uwchraddiad prawf theori DVSA wrth gysylltu â'r adran TGCh a darparwyr allanol.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- I weithredu egwyddorion Polisiâu Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth weithredu'r dyletswyddau uchod
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisiâu a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol ac i gymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn bwrpasol
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng safleoedd ar draws De Cymru. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

Bydd peth gweithio gyda'r nosweithiau ac ar benwythnosau ac mae cynllun gweithio hyblyg mewn grym.

